

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) 2021

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Llywodraeth Leol Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) 2021.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
09 Tachwedd 2021

1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) 2021 yn diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ddarparu bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir trwy reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gorfod cydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Daw'r darpariaethau hynny i rym ar 3 Rhagfyr 2021.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ni nodwyd unrhyw faterion penodol.

3. Cefndir deddfwriaethol

Cynhwysir y pwerau sy'n galluogi'r rheoliadau hyn i gael eu gwneud yn adrannau 84(2) a 174 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae adran 84(2) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn cysylltiad â rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sy'n diwygio, yn addasu, yn cymhwyso (gydag addasiadau neu hebddynt) neu'n datgymhwyso unrhyw ddeddfiad.

Mae adran 174 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheoliadau hyn fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol yn y Senedd.

Ar yr amod eu bod yn cael eu cymeradwyo gan y Senedd, caiff y rheoliadau eu gwneud gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol a deuant i rym ar 3 Rhagfyr 2021.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) 2021 ("y Rheoliadau Diwygio") yn diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf").

Mae'r Rheoliadau Diwygio'n rhan o becyn o ddiwygiadau i ddeddfwriaeth a fydd yn sail i bob Cyd-bwyllgor Corfforedig ac yn sefydlu'r fframwaith deddfwriaethol angenrheidiol ar gyfer gweinyddu a llywodraethu Cyd-bwyllgor Corfforedig yn effeithiol.

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrff corfforedig, a sefydlwyd trwy reoliadau, ac yn cynnwys y prif gynghorau yng Nghymru a bennir yn y rheoliadau sefydlu. Mewn rhai amgylchiadau cynhwysir Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru mewn Cyd-bwyllgor Corfforedig. Lle bo hyn yn wir nodir hyn yn y rheoliadau sefydlu perthnasol.

Y bwriad cyffredinol wrth sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yw y caiff Cyd-bwyllgor Corfforedig ei drin fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' neu fel aelod ohono ac y bydd yn ddarostyngedig i raddau helaeth i'r un pwerau a dyletswyddau ag awdurdodau lleol yn y ffordd y maent yn gweithredu ac yn cael eu llywodraethu.

Mae adran 6 o'r Ddeddf yn rhestru rhai personau fel 'corff cyhoeddus' at ddibenion Rhannau 2 a 3 o'r Ddeddf. Mae rhan 2 o'r Ddeddf yn nodi'r nodau llesiant y mae rhaid i gyrff cyhoeddus geisio eu cyflawni. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf yn galluogi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i fonitro ac asesu i ba raddau y mae'r amcanion llesiant a bennir gan gyrff cyhoeddus o dan Ran 2 o'r Ddeddf yn cael eu bodloni.

Mae'r Rheoliadau Diwygio'n diwygio ystyr corff cyhoeddus yn adran 6, trwy ychwanegu Cyd-bwyllgor Corfforedig at y rhestr. Effaith hyn yw bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sefydlir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gyrff sy'n gorfod cydymffurfio â Rhan 2 a 3 o'r Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau Diwygio hefyd yn diwygio'r Ddeddf trwy ddatgymhwyso adran 9 o'r Ddeddf mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig. Mewnositir adran 8A yn y Ddeddf, sy'n nodi pryd y mae rhaid i Gyd-bwyllgor Corfforedig bennu ac adolygu ei amcanion llesiant.

Mae'r diwygiadau yn y rheoliadau hyn:

- a. Yn mewnosod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o dan ystyr "*corff cyhoeddus*."
- b. Yn mewnosod adran 8A newydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi pryd y mae rhaid i gyd-bwyllgor corfforedig bennu ac adolygu ei amcanion llesiant.
- c. Yn mewnosod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn adran 9(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o dan ystyr "*Amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill*".
- d. Yn mewnosod diffiniad o "Cyd-bwyllgor Corfforedig" yn adran 55(1) (dehongli) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

5. Ymgynghori

Ymgynghorodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ar y bwriad i gynnwys Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ystyriwyd y gwaith o gymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd fel rhan o'r ymgynghoriad ar Reoliadau Sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig drafft a barodd rhwng 12 Hydref 2020 a 4 Ionawr 2021. Yn unol â'r ymagwedd at drin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol' roedd yr ymatebwyr yn cytuno y dylai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fod yn ddarostyngedig i'r un safonau a rhwymedigaethau o safbwynt Cenedlaethau'r Dyfodol â'r awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

Yn ogystal, trafodwyd cymhwyso Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i Gyd-bwyllgorau Corfforedig nifer o weithiau yn ystod hynnt Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn y Senedd. Ymrwymodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol i sicrhau bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn cael eu cynnwys yn

Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 adeg eu sefydlu neu cyn gynted â phosibl wedi hynny.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol ar wahân wedi'i baratoi mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Er hynny, asesodd yr asesiad effaith rheoleiddiol i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-orllewin (Cymru) 2021 y costau a'r buddion posibl sy'n gysylltiedig â sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy reoliadau. Wrth asesu'r costau a'r manteision posibl, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried y bwriad polisi cyffredinol y dylid trin Cyd-bwyllgorau Corfforedig fel rhan o'r 'teulu llywodraeth leol', gan gynnwys cymhwyso dyletswyddau ehangach y sector cyhoeddus megis Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Tybiwyd at ddiben yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol mai rhywbeth a gyflawnir gan swyddogaeth corff corfforedig Cyd-bwyllgorau Corfforedig fyddai arfer dyletswyddau o'r fath ac fe gynhwysir costau arfer y dyletswyddau cyrff cyhoeddus o fewn y Rheoliadau hyn yn yr ystod o gostau a ddarperir ar gyfer y swyddogaeth corff corfforedig gyffredinol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Mae copi o'r [Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) i gyd-fynd â Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Canolbarth (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y Gogledd (Cymru) 2021, Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y De-ddwyrain (Cymru) 2021 a Rheoliadau Cyd-bwyllgor Corfforaethol y (De-orllewin) Cymru 2021 ar gael fel rhan o'r dogfennau perthnasol i gyd-fynd â'r Rheoliadau hynny.